



Gweinyddiaeth
Cyfiawnder



Ministry
of Justice

Cynllun Iaith Gymraeg y Weinyddiaeth Cyfiawnder


Adroddiad Monitro Blynyddol 2016–2017 i
Gomisiynydd y Gymraeg

Ministry of Justice Welsh Language Scheme

2016–17 Annual Monitoring Report to the
Welsh Language Commissioner

Medi 2017
September 2017

Amddiffyn a hyrwyddo egwyddorion cyfiawnder
Protecting and advancing the principles of justice



Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn ymdrin â'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2017. Hunanasesiad ydyw o sut mae'r Weinyddiaeth Cyfiawnder wedi parhau i gyflawni'r ymrwymadau yn ei Chynllun Iaith Gymraeg (y Cynllun) yn ystod y cyfnod hwn.

Mae'r Cynllun yn amlinellu sut mae'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yn gweithredu'r egwyddor yn Adran 5 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, sef y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth gynnal busnes cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru.

Cefndir

Cymeradwywyd y Cynllun gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ym mis Mawrth 2010. Mae ar gael ar wefan y Weinyddiaeth: <http://www.justice.gov.uk/publications/corporate-reports/moj/2010/welsh-language-scheme>

Rydym wrthi'n diwygio ein Cynllun, a rhagwelir y bydd fersiwn ddiwygiedig ar gael yn ystod tymor yr hydref 2017.

Roedd y cynllun gweithredu a oedd ynghlwm wrth y Cynllun yn nodi prif dargedau'r Weinyddiaeth Cyfiawnder dros gyfnod cychwynnol o dair blynedd, a sut yr oeddem yn bwriadu rhoi'r targedau hyn ar waith. Llwyddwyd i gyflawni llawer o'r camau penodol hyn (ac adroddwyd yn eu cylch mewn adroddiadau monitro blynyddol blaenorol) a daliwyd ati i wneud cynnydd gyda'r camau parhaus eu natur.

Mae'r Cynllun yn gynllun corfforaethol sy'n cynnwys y meysydd busnes a'r timau ym mhencadlys corfforaethol y Weinyddiaeth, gan gynnwys swyddogaethau sy'n ymwneud â pholisïau, cyllid corfforaethol, gweithgareddau masnachol, caffael, adnoddau dynol, ystadau, technoleg gwybodaeth a chyfathrebu.

Introduction

This report covers the period from 1 April 2016 to 31 March 2017 and is a self-assessment of how the Ministry of Justice (MoJ) has continued to deliver its commitments under its Welsh Language Scheme (the MoJ Scheme) during this period.

The MoJ Scheme sets out how MoJ gives effect to the principle in Section 5 of the Welsh Language Act 1993 that, in the conduct of public business and the administration of justice in Wales, the English and Welsh languages should be treated on a basis of equality.

Background

The MoJ Scheme was endorsed by the Welsh Language Board in March 2010 and is published on the MoJ website: <http://www.justice.gov.uk/publications/corporate-reports/moj/2010/welsh-language-scheme>

We are in the process of revising our MoJ Scheme and it is anticipated that a revised MoJ Scheme will be available in autumn 2017.

The action plan attached to the MoJ Scheme set out the main targets for MoJ to deliver over an initial three-year period and how we intended to implement these. Many of these specific actions have been achieved (and reported in previous annual monitoring reports) and we have maintained progress with the actions that were of an ongoing nature.

The MoJ Scheme is a corporate scheme that covers the business areas and teams in MoJ's corporate headquarters, including our policy, corporate finance, commercial, procurement, HR, estates, IT and communications functions.

Crynodeb

Yn ystod 2016–17, daliwyd ati i gydymffurfio â darpariaethau ein Cynllun, a llwyddwyd i fodloni'r meini prawf llwyddiant, fel y nodwyd yn y Cynllun Gweithredu. Rydym wedi gwreiddio llawer o'r camau gweithredu yn ein systemau a'n prosesau, gan sicrhau felly eu bod yn rhan annatod o fusnes y Weinyddiaeth Cyfiawnder.

Dyma rai o'r pethau a gyflawnwyd yn ystod 2016–17:

- Mae ymgynghoriadau allweddol y Weinyddiaeth Cyfiawnder ar gael yn Gymraeg ar Hyb Ymgynghori'r Weinyddiaeth ar ein tudalennau GOV.UK 'corfforaethol' ac ar dudalennau 'cyffredinol' GOV.UK
- Mae Prawf Effaith ar y Gymraeg wedi cael ei ychwanegu at dempledi ymgynghoriadau'r Weinyddiaeth
- Mae llwyfan e-recriwtio newydd World Careers Network yn cynnwys disgrifiadau swyddi Cymraeg ar gyfer swyddi yng Nghymru, a gall ymgeiswyr ddewis cael eu cyfweld yn Gymraeg
- Cyhoeddwyd adroddiad Comisiwn y Gyfraith, *Ffur a Hygyrchedd y Gyfraith sy'n Gymwys yng Nghymru*, yn 2016
- Mae Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus wedi creu 'Hyb Iaith Gymraeg' gyda mynegai o gynnwys Cymraeg ar GOV.UK
- Agorodd CEM Berwyn ym mis Chwefror 2017 gyda thaith gwbl ddwyieithog o amgylch y carchar ar gyfer y Wasg; ac mae Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru yn darparu gwasanaethau 'Drwy'r Gât' i droseddwr
- Mae Grŵp Cydlynwyr Iaith Gymraeg ehangach y Weinyddiaeth Cyfiawnder wedi parhau â'i waith, gan ymdrin ag ystod ehangach o feysydd busnes y Weinyddiaeth
- Mae'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwr wedi llunio fframwaith cydraddoldeb newydd sy'n cynnwys ystyriaethau sy'n ymwneud â'r Gymraeg

Summary

During 2016–17, we continued to comply with the provisions of our MoJ Scheme and met its success criteria as set out in the Action Plan. We have embedded many of the actions into our systems and processes thus making them integral to MoJ's business.

Achievements for 2016–17 include:

- Key MoJ consultations being available in Welsh from the MoJ Consultation Hub on our 'corporate' GOV.UK pages and from the 'mainstream' pages of GOV.UK
- Adding a Welsh Impact Test to the MoJ consultation templates
- The World Careers Network new e-recruitment platform hosts job descriptions in Welsh for jobs based in Wales, with candidates having the option to be interviewed in Welsh
- The Law Commission's report *The Form and Accessibility of the Law Applicable in Wales* was published in 2016
- The Office of the Public Guardian has developed a 'Welsh language hub', with an index of Welsh language content on GOV.UK
- HMP Berwyn opened in February 2017 with a fully bilingual prison tour for the Press; and the Wales Community Rehabilitation Company is providing 'Through the Gate' services for offenders
- The continued operation of a widened MoJ Welsh Language Co-ordinators Group covering a broader range of MoJ's business areas
- The National Offender Management Service developed a new equalities framework including Welsh language considerations

Cynnydd wrth gyflawni'r Cynllun Gweithredu

Rhoddir diweddariad ar bob un o'r camau isod er mwyn dangos sut mae'r Weinyddiaeth wedi cyflawni pob un o'r pwyntiau gweithredu a nodir yn y Cynllun Iaith Gymraeg ac yn parhau i wneud hynny.

Adroddiad Monitro Blynnyddol 2015–16 y Weinyddiaeth Cyfiawnder

Wrth ymateb i Adroddiad Monitro Blynnyddol 2015–16, mi wnaeth Comisiynydd y Gymraeg nifer o sylwadau a gofyn am ragor o wybodaeth ynghylch rhai meysydd gwaith. Rhoddwyd y wybodaeth ychwanegol hon i gyd i'r Comisiynydd ym mis Chwefror 2017, ac nid yw'n cael ei hailadrodd yn yr adroddiad hwn.

1. Datblygu a Gweithredu Polisi

Meini prawf llwyddiant:

Dylai polisïau, cynlluniau a gwasanaethau fod yn gyson â'r ymrwymïadau yng Nghynllun Iaith Gymraeg y Weinyddiaeth Cyfiawnder.

Ymgynghoriadau'r Weinyddiaeth Cyfiawnder

Yn ystod cyfnod adrodd 2016–17, cynhaliodd y Weinyddiaeth Cyfiawnder nifer o ymgynghoriadau yn Gymraeg a chyhoeddi ymatebion yn Gymraeg fel a ganlyn:
Ymgynghoriad ar amlosgi yn dilyn ymchwiliadau diweddar i amlosgi babanod. Cafodd yr ymgynghoriad a'r ymateb, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2016, eu cyfieithu i'r Gymraeg yn eu cyfanrwydd. Maent ar gael ar Hyb Ymgynghori corfforaethol y Weinyddiaeth ac ar safle cyffredinol GOV.UK.

Progress on the Action Plan

An update on each of the ongoing actions is set out below, demonstrating how MoJ has met, and is continuing to meet, each of the action points as set out in its Welsh Language Scheme.

MoJ's 2015–16 Annual Monitoring Report

In response to the 2015–16 Annual Monitoring Report, the Welsh Language Commissioner (WLC) made a number of comments and requested further information on some areas of our work. All of this additional information was provided previously to the WLC in February 2017 and is not repeated in this report.

1. Policy development and implementation

Success criteria:

Policies, initiatives and services to be consistent with commitments made in the MoJ Scheme.

MoJ consultations

During the 2016–17 reporting period MoJ carried out a number of consultations in Welsh and published responses in Welsh as follows:
Consultation on cremation following recent inquiries into infant cremations. Both the consultation and response, published in July 2016, were translated into Welsh in full and are available from the corporate MoJ Consultation Hub and mainstream GOV.UK site.

Roedd ***Trawsnewid ein System Cyfiawnder: cyfansoddiad paneli yn y tribiwnlysoedd*** yn rhoi sylw i amrywiol rannau o raglen diwygio'r llysoedd. Cafodd yr ymgynghoriad (Medi 2016) ac ymateb y llywodraeth (Chwefror 2017) eu cyfieithu i'r Gymraeg yn eu cyfanrwydd ac maent ar gael ar Hyb Ymgynghori corfforaethol y Weinyddiaeth Cyfiawnder ac ar brif safle cyffredinol GOV.UK.

Ym mis Tachwedd 2016, cyhoeddwyd ***Diwygio'r Broses Hawliadau am Anafiadau i'r Feinwe Feddal ('atchwip')*** – ymgynghoriad ar y trefniadau ar gyfer hawliadau am anafiadau personol yng Nghymru a Lloegr. Cafodd dogfen yr ymgynghoriad a'r rhan gyntaf o ymateb y llywodraeth eu cyfieithu i'r Gymraeg yn eu cyfanrwydd. Maent ar gael ar Hyb Ymgynghori'r Weinyddiaeth Cyfiawnder ac ar safle cyffredinol GOV.UK.

Cyhoeddodd y Weinyddiaeth Cyfiawnder yr ymgynghoriad ***Troseddau gyrru a chosbau sy'n gysylltiedig ag achosi marwolaeth neu anaf difrifol*** ym mis Rhagfyr 2016. Roedd yr ymgynghoriad, a chyfieithiad Cymraeg llawn, ar gael ar Hyb Ymgynghori corfforaethol y Weinyddiaeth Cyfiawnder ac ar safle cyffredinol GOV.UK. Roedd copi caled o'r fersiwn Gymraeg ar gael ar gais hefyd (ond ni dderbyniwyd cais ar gyfer hynny).

Ym mis Ionawr 2017, cyfieithwyd ymateb y llywodraeth i ***Adolygiad Charlie Taylor o'r System Cyfiawnder Ieuencid*** i'r Gymraeg yn ei gyfanrwydd. Mae hwn ar gael ar GOV.UK.

Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar y cyd rhwng yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol a'r Weinyddiaeth Cyfiawnder, ***Diwygio System y Tribiwnlysoedd Cyflogaeth***, ym mis Rhagfyr 2016. Cyfieithwyd hwn i'r Gymraeg yn ei gyfanrwydd. Cyhoeddwyd ymateb y llywodraeth yn Gymraeg hefyd, a hynny yn ei gyfanrwydd, ym mis Chwefror 2016. Mae ar gael ar safle GOV.UK.

The ***Transforming our Justice System: panel composition in tribunals consultation*** covered various areas of the courts reform programme. Both the consultation (September 2016) and the government response (February 2017) were translated into Welsh in full and are available from the corporate MoJ Consultation Hub and mainstream GOV.UK site.

MoJ published ***Reforming the Soft Tissue Injury ('Whiplash') Claims Process*** – a consultation on arrangements concerning personal injury claims in England and Wales – in November 2016. The consultation document and part one of the government response were both translated into Welsh in full and are available from the corporate MoJ Consultation Hub and mainstream GOV.UK site.

MoJ published the consultation ***Driving offences and penalties relating to causing death or serious injury*** in December 2016. The consultation, including a full Welsh translation, was available on the corporate MoJ Consultation Hub and mainstream GOV.UK site. A hard copy of the Welsh version was also available on request (although no such requests were received).

In January 2017 the government response to Charlie Taylor's ***Review of the Youth Justice System*** was translated into Welsh in full. It is available from GOV.UK.

The joint Department for Business, Energy and Industrial Strategy / MoJ consultation, ***Reforming the Employment Tribunal System*** was published in December 2016. This was translated into Welsh in full. The government response was also published in Welsh in full, issued in February 2017 and is available from GOV.UK.

Ym mis Ionawr 2017 mi wnaethom lansio ymgynghoriad ffurfiol â'r cyhoedd, sef **Diwygio'r Cynllun Ffioedd Graddedig i Eiriolwyr**. Mae crynodeb Cymraeg ar gael ar Hyb Ymgynghori corfforaethol y Weinyddiaeth Cyfiawnder. Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn yn benodol am safbwyntiau ynghylch a fydd y cynigion yn effeithio ar y modd y darperir gwasanaeth eiriolaeth troseddol a ariennir yn gyhoeddus drwy gyfrwng y Gymraeg. Cynhaliwyd Prawf Effaith ar y Gymraeg hefyd, a darparwyd y manylion yn yr Asesiad o Effaith.

Templedi ymgynghoriadau

Mae templedi ymgynghoriadau a thempledi ymateb i ymgynghoriadau ar gyfer isadrannau corfforaethol a chyflawni ehangach yr adran wedi cael eu diweddarau i gynnwys Prawf Effaith ar y Gymraeg. Mae'r Prawf hwn yn mynnu bod llunwyr polisiâu a darparwyr gwasanaethau yn mynd ati yn ystod y broses ymgynghori i asesu canlyniadau ieithyddol polisiâu sy'n effeithio ar wasanaethau a ddarperir i bobl Cymru. Mae'r Prawf yn cynnwys nifer o gwestiynau i'w gofyn i'r rheini yr ymgynghorir â nhw, ac mae'n rhoi arweiniad i bob aelod o staff sy'n bwriadu cynnal ymgynghoriad ysgrifenedig, neu ymateb i ymarfer ymgynghori ysgrifenedig.

Cynlluniau Iaith Gymraeg Cyrff Cyflawni'r Weinyddiaeth Cyfiawnder

Mae'r rhan fwyaf o wasanaethau a busnes y Weinyddiaeth Cyfiawnder yng Nghymru yn cael ei gyflawni drwy brif gyrff cyflawni'r adran, gan gynnwys y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyd,¹ Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd ei Mawrhydi (GLITEM), Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus, yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol a'r Comisiwn Penodiadau Barnwrol. Er bod gan bob un o'r gyrff cyflawni hyn Gynllun Iaith Gymraeg ei hun, a'u bod yn cyflwyno adroddiadau monitro blynyddol i Gomisiynydd y Gymraeg, rhoddir gwybodaeth am bob un isod. Rhoddir diweddariad ar waith Comisiwn y Gyfraith hefyd.

¹ Ar 1 Ebrill 2017, newidiodd y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyd ei enw i Wasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi.

In January 2017 we launched a formal public consultation **Reforming the Advocates' Graduated Fee Scheme**. A Welsh summary is available on the corporate MoJ Consultation Hub. The consultation explicitly invited views on whether the proposals will impact on the delivery of publicly funded criminal advocacy through the medium of Welsh. A Welsh Language Impact Test was also conducted and details of this were provided in the Impact Assessment.

Consultation templates

The consultation templates and response to consultation templates for the department's corporate and wider delivery arms have been updated to include a Welsh Impact Test (WIT). The WIT requires policymakers and service deliverers to "assess the linguistic consequences of policies affecting services provided to the people in Wales" during the consultation process. The WIT includes a number of questions to ask consultees and provides guidance for all staff intending to carry out a written consultation, or respond to a written consultation exercise.

MoJ Delivery Bodies' Welsh Language Schemes

Most of MoJ's business and services in Wales are delivered through the department's main delivery bodies, including the National Offender Management Service (NOMS),¹ Her Majesty's Courts & Tribunals Service (HMCTS), the Office of the Public Guardian (OPG), the Legal Aid Agency (LAA) and the Judicial Appointments Commission (JAC). Although these delivery bodies each have their own Welsh Language Scheme and submit annual monitoring reports to the WLC, an entry for each is given below. Additionally, an update on the work of the Law Commission is provided.

¹ From 1 April 2017 NOMS changed its name to Her Majesty's Prison and Probation Service (HMPPS).

Defnyddiwyd erthygl ar y Cynllun Iaith Gymraeg yn y Bwletin Cyrff Hyd Braich i gysylltu â Chyrff Hyd Braich a Noddwyr y Weinyddiaeth Cyfiawnder er mwyn eu helpu i gael gwell dealltwriaeth o drefniadau llywodraethu'r Weinyddiaeth mewn perthynas â'r Gymraeg a chydymffurfio â nhw.

Y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr

Mae'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr wrthi'n adolygu ac yn gwerthuso'r Cynllun Iaith Gymraeg sydd ganddo ar hyn o bryd gyda'r bwriad o gyhoeddi cynllun diwygiedig ochr yn ochr â'i adroddiad monitro blynyddol nesaf ym mis Hydref 2017. Mae'r Gwasanaeth yn dal i weithio'n agos gyda chydweithwyr yng Nghymru ac ar draws teulu ehangach y Weinyddiaeth Cyfiawnder wrth ei ddatblygu. Cyflwynodd y Gwasanaeth ei adroddiad monitro blynyddol ar gyfer 2015–16 i Gomisiynydd y Gymraeg ym mis Hydref 2016, a rhoi atebion dilynol i'r cwestiynau a godwyd gan y Comisiynydd ym mis Chwefror 2017. Dyma'r cynnydd nodedig mae'r asiantaeth wedi'i wneud yn ystod y flwyddyn a fu:

Cyflwyno fframwaith cydraddoldeb newydd sy'n gorfod bod yn berthnasol i bob polisi, cynnyrch neu raglen newydd. Mae cyfarwyddyd gweithredol ar 'Ddadansoddi Cydraddoldeb' – PSI 20/2016, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2016 – yn ceisio sicrhau bod ystyriaethau cydraddoldeb yn cael eu gwreiddio o'r cychwyn cyntaf a thra pery holl waith y Gwasanaeth. Mae'r ymrwymiad newydd hwn yn cynnwys adran benodol ar yr iaith Gymraeg, gan helpu i sicrhau bod ystyriaethau sy'n ymwneud â'r Gymraeg yn cael eu gwreiddio'n gyson yng nghyd-destun diwygio'r carchardai a dadreoleiddio. Gellir dilyn y ddolen ganlynol i weld y cyfarwyddyd yn llawn: <https://intranet.noms.gsi.gov.uk/policies-and-subjects/policy-and-instructions/psi-2016-20>

We engaged with MoJ's Sponsors and Arms Length Bodies (ALBs) via a Welsh Language Scheme article in the ALB Bulletin to help them better understand and comply with MoJ's Welsh Language governance arrangements.

National Offender Management Service (NOMS)

NOMS is currently reviewing and evaluating its existing Welsh Language Scheme with a view to publishing a revised scheme alongside its next annual monitoring report in October 2017. NOMS continues to work closely with colleagues in Wales and across the wider MoJ family in its development. NOMS submitted its annual monitoring report for 2015–16 to the WLC in October 2016, and provided subsequent answers to questions raised by the WLC in response in February 2017. Notable progress for the agency over the past year is as follows:

The introduction of a new equalities framework which must be applied to all new policies, products or programmes. An operational instruction on 'Equality Analysis' – PSI 20/2016, published in December 2016 – seeks to ensure that equality considerations are embedded from the outset and throughout the lifetime of all NOMS work. This new commitment includes a specific section on Welsh Language, helping to ensure that Welsh language considerations are consistently embedded in a context of prison reform and deregulation. The full instruction can be found via the following link: <https://intranet.noms.gsi.gov.uk/policies-and-subjects/policy-and-instructions/psi-2016-20>

Mae'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol wedi bod yn defnyddio'r ffurflen hunan ddatganiad cydraddoldeb a lanswyd yn ddiweddar – y Ffurflen Gwybodaeth am Gydraddoldeb – yn ystod 2016. Mae'r Ffurflen yn nodi dewisiadau iaith, gan gynnwys y Gymraeg, yn ystod y pwynt cyswllt cyntaf (yn y llys fel arfer), a bydd hyn yn cael ei fonitro wrth i'r troseddwr fynd drwy'r system. Mae'n golygu bod modd gwella data i ddatblygu Cynllun y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwr, a sicrhau bod gwasanaeth mwy ymatebol yn cael ei gynnig i droseddwr sy'n dweud mai Cymraeg yw eu dewis iaith.

Ar 28 Chwefror 2017, agorodd CEM Berwyn ei ddrysau fel carchar categori C mawr newydd ar gyfer dynion yn Wrexham, Cymru. Mae sgiliau yn y Gymraeg yn cael eu rhestru fel rhai dymunol wrth recriwtio staff. Mae croesawu'r Gymraeg a diwylliant Cymru fel gwerth craidd yng ngharchar Berwyn wedi helpu i sicrhau'r ddarpariaeth ym mhob maes ar draws y sefydliad.

Mae CEM Berwyn yn cofnodi lefelau'r Gymraeg ymhlith ymgeiswyr llwyddiannus fel rhan o holiadur sgiliau a anfonir at bob aelod o staff. Drwy wneud hyn, bydd modd cael gwybod faint o staff sydd wedi dweud eu bod yn siarad Cymraeg. Mae'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwr yn adolygu gallu staff newydd Berwyn o ran y Gymraeg, yn ogystal â gallu aelodau presennol o staff ar draws y Gwasanaeth yng Nghymru. Hefyd, mae staff sy'n gallu siarad Cymraeg i'w gweld ar bosteri (gyda'u caniatâd) yn y carchardai er mwyn i garcharorion allu gwybod pwy ydynt os bydd angen cymorth un-i-un arnynt.

Mae technoleg ddwyieithog ar gael yn ystafelloedd y carcharorion yn CEM Berwyn, technoleg sy'n eu galluogi i gael gafael ar bob math o wasanaethau. Bydd technoleg o'r fath yn cael ei chynhyrchu yn Gymraeg, drwy weithio ar y cyd â'r Uned Iaith Gymraeg. Mae carchardai eraill yng Nghymru hefyd yn darparu porth digidol i ddynion allu cael gafael ar wybodaeth, er enghraifft, gwybodaeth ddefnyddiol am eu 'noson gyntaf yn y ddalfa'. Mae'r porth digidol ar gael yn Gymraeg ac mewn llawer o ieithoedd eraill hefyd.

The recently launched equalities self-declaration form – the Equality Information Form (EIF) – has been used by the National Probation Service during 2016. The EIF captures language preferences including Welsh at first point of contact (usually in court) and is monitored throughout the offender journey. It enables data to be improved to inform the development of NOMS' Scheme to ensure provision of a more responsive service to offenders who declare Welsh as their preferred language.

HMP Berwyn opened on 28 February 2017 as a brand-new large capacity adult male category C prison in Wrexham, Wales. Welsh language skills are listed as desirable for staff recruitment. Embracing Welsh language and Welsh culture as a core value at Berwyn has helped mainstream all areas of delivery across the establishment.

HMP Berwyn is capturing levels of Welsh language among those successful applicants as part of a skills questionnaire sent to every member of staff. This will capture the numbers of staff who have declared themselves as Welsh speakers. NOMS is reviewing Welsh language capacity of staff new to Berwyn and those existing staff across NOMS in Wales. In addition, Welsh speaking staff are advertised (with their permission) on posters across the prisons so that prisoners can easily identify staff for any one-to-one support required.

All prisoners at HMP Berwyn are provided with bilingual In-Room Technology. This enables them to access a diverse range of services. All such technology will be produced in Welsh language working in conjunction with the Welsh Language Unit. In addition, other prisons in Wales provide a digital portal for men to access information, for example, useful information on their 'first night in custody'. The digital portal is accessible in Welsh and also through a wide range of other languages.

Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi (GLITEM)

Mae GLITEM wedi bod yn gweithredu ei Gynllun Iaith Gymraeg presennol ers 2013. Ar hyn o bryd, mae wrthi'n ei ddiweddarau i adlewyrchu rhaglen Diwygio'r Llysoedd sydd ar y gweill, a'r pwyslais ar ddigideiddio gwasanaethau. Fel rhan o'r Rhaglen Ddiwygio, mae GLITEM yn cynnal gwaith ymchwil defnyddwyr gyda siaradwyr Cymraeg er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'u gofynion o ran cynnwys Cymraeg.

Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus

Mae Cynllun Iaith Gymraeg Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus wrthi'n cael ei adolygu a'i ddiweddarau. Mae'r Swyddfa wedi bod yn canolbwyntio ar sicrhau bod gwasanaethau Cymraeg wedi'u hymgorffori mewn busnes bob dydd, ac y codir ymwybyddiaeth o wasanaethau'r Swyddfa ymhlith y cyhoedd a gweithwyr proffesiynol. Un llwyddiant pwysig y flwyddyn hon fu creu 'hyb iaith Gymraeg', sef tudalen we sy'n gweithredu fel mynegai ar gyfer holl gynnwys Cymraeg y Swyddfa sydd ar gael ar safle GOV.UK. Nod yr hyb yw gwella'r llwybr y bydd cwsmeriaid Cymraeg yn ei ddilyn, a sicrhau bod modd iddynt gael gafael ar y wybodaeth maent yn chwilio amdani o un pwynt canolog.

Yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol

Mae tîm rheoli contractau'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol wedi adolygu darpariaeth gwasanaethau Cymraeg o dan ei gontractau presennol. Mae cwmnïau'n cydymffurfio drwy gyflogi siaradwyr Cymraeg, neu mae ganddynt weithdrefnau yn eu lle i ddarparu gwasanaeth Cymraeg drwy gyfeirio at gyfreithwyr Cymraeg eu hiaith os yw cleient yn gofyn am hynny. Os nad yw darparwr yn darparu siaradwr Cymraeg, caiff unrhyw gleientiaid sy'n dymuno ymdrin â'u materion drwy gyfrwng y Gymraeg eu trosglwyddo i gwmni arall yn yr un maes caffael lle mae'r ddarpariaeth ar gael. Mae darpariaeth addas o safbwynt y Gymraeg ar gael i gleientiaid ar draws pob maes caffael.

Her Majesty's Courts & Tribunals Service (HMCTS)

HMCTS has been operating its current Welsh Language Scheme since 2013 and is currently updating it to reflect the current programme of Court Reform with its emphasis on the digitalisation of services. As part of the Reform Programme HMCTS is conducting user research with Welsh speakers in order to better understand their requirements in relation to Welsh content.

Office of the Public Guardian (OPG)

OPG's Welsh Language Scheme is in the process of being reviewed and updated. OPG has been focussing on ensuring that Welsh language services are embedded into business as usual and that awareness of OPG's services is raised with the public and among professionals. A key achievement this year has been the development of a 'Welsh language hub', which is a webpage that acts as an index for all of OPG's Welsh language content available on GOV.UK. The hub aims to improve a Welsh user's customer journey and makes the information they are seeking accessible from one central point.

Legal Aid Agency (LAA)

The LAA contract management team has reviewed the provision of Welsh language services under its current contracts. Firms comply by employing Welsh language speakers or have procedures in place to provide a Welsh language service through referral to Welsh-speaking solicitors should a client so request. Where a provider does not provide a Welsh speaker, any clients wishing to conduct their affairs in Welsh are passed to an alternative firm within the same procurement area where such provision is available. There is suitable Welsh language provision across all procurement areas for clients.

Y Comisiwn Penodiadau Barnwrol

Cyhoeddwyd Cynllun Iaith Gymraeg y Comisiwn Penodiadau Barnwrol ym mis Mai 2016. Mae'r cynllun yn nodi sut bydd y Comisiwn yn ymdrin â'r Gymraeg a'r Saesneg wrth asesu pa mor addas yw ymgeiswyr ar gyfer penodiadau barnwrol yng Nghymru. Mae'n esbonio sut bydd modd i ymgeiswyr gysylltu â'r Comisiwn yn Gymraeg neu yn Saesneg, yn unol â'u dewis personol. Mae'r Comisiwn Penodiadau Barnwrol wedi sefydlu Pwyllgor Materion Cymreig, sy'n is-bwyllgor newydd o Fwrdd Comisiynu'r Comisiwn Penodiadau Barnwrol. Fe'i cadeirir gan yr Athro Noel Lloyd, Comisiynydd y Comisiwn sydd â chyfrifoldeb dros Gymru. Prif bwrpas y grŵp yw monitro effaith bosib datganoli yng Nghymru ar y broses benodi ar gyfer swyddi barnwrol ledled Cymru a Lloegr. Bydd y grŵp yn goruchwyllo Cynllun Iaith Gymraeg y Comisiwn Penodiadau Barnwrol hefyd. Mae'r Comisiwn wrthi'n llunio'r fersiwn derfynol o'i adroddiad monitro blynyddol cyntaf.

Comisiwn y Gyfraith

Mae tîm cyfraith gyhoeddus Comisiwn y Gyfraith wedi ymgymryd â nifer o brosiectau diwygio'r gyfraith sy'n ymwneud â materion wedi'u datganoli i Gymru, gan gynnwys y canlynol:

Awgrymodd Pwyllgor Ymgynghori Cymru Comisiwn y Gyfraith y dylid llunio *Ffur a Hygyrchedd y Gyfraith sy'n Gymwys yng Nghymru*, ac fe'i comisiynwyd gan Lywodraeth Cymru. Cyhoeddodd Comisiwn y Gyfraith ei adroddiad terfynol a'i argymhellion ar 29 Mehefin 2016, gan wneud argymhellion gwahanol ynghylch cyfundrefnu'r gyfraith sy'n berthnasol yng Nghymru, cyhoeddi cyfraith Cymru, safonau deddfwriaethol a'r Gymraeg. Cyfieithiad Cymraeg o'r ddogfen *Form and Accessibility of the Law Applicable in Wales* yw *Ffur a Hygyrchedd y Gyfraith sy'n Gymwys yng Nghymru*, a gellir ei lawrlwytho ar wefan Comisiwn y Gyfraith a GOV.UK.

Judicial Appointments Commission (JAC)

The JAC [Welsh Language Scheme](#) was published in May 2016. The scheme sets out how the JAC will treat the Welsh and English languages when assessing candidates' suitability for judicial appointment in Wales, and explains how candidates will be able to communicate with the JAC in English or Welsh, according to their personal choice. JAC has established a Welsh Matters Committee which is a new sub-committee of the JAC Commission Board which sits on a bi-monthly basis. It is chaired by the JAC Commissioner with responsibility for Wales, Professor Noel Lloyd. The group's primary purpose is to monitor the potential impact of devolution in Wales on the appointments process to judicial posts across England and Wales. The group will also have oversight of the JAC's Welsh Language Scheme. The JAC is currently finalising its first annual monitoring report.

The Law Commission (LC)

The LC's public law team has undertaken a number of law reform projects relating to Welsh devolved matters including:

The *Form and Accessibility of the Law Applicable in Wales* was suggested by the Wales Advisory Committee of the Law Commission and was commissioned by the Welsh Government. The LC published its final report and recommendations on 29 June 2016, making disparate recommendations relating to the codification of the law applicable in Wales, the publication of Welsh law, legislative standards and the Welsh language. The *Form and Accessibility of the Law Applicable in Wales* was translated into Welsh and is now available to download on the LC and GOV.UK websites.

Mae Gofal Cymdeithasol i Oedolion wedi cael ei roi ar waith gan y Cynulliad Cenedlaethol yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014; ac roedd Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 yn rhoi argymhellion Comisiwn y Gyfraith ynghylch Rhentu Tai yng Nghymru ar waith.

Mae gan Gomisiwn y Gyfraith un prosiect ar y gweill ar hyn o bryd sy'n ymwneud â chyfraith ddatganoledig, sef Cyfraith Cynllunio yng Nghymru: <http://www.lawcom.gov.uk/project/planning-law-in-wales/>. Cafwyd 59 ymateb i bapur cwmpasu Comisiwn y Gyfraith, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2016; roedd 96% o'r ymatebwyr yn cytuno bod achos dros gael cod cynllunio newydd. Bydd y papur ymgynghori yn cael ei gyhoeddi nes ymlaen yn 2017.

Mae Comisiwn y Gyfraith wrthi hefyd yn mynd drwy awgrymiadau ar gyfer ei raglen dair blynedd nesaf o ddiwygio'r gyfraith (y drydedd rhaglen ar ddeg). Mae dimensiwn Cymreig i nifer o'r prosiectau a awgrymwyd, neu maent yn gysylltiedig â meysydd datganoledig. Mae dau brosiect yn benodol i Gymru: Cyfundrefnu Cyfraith Cymru (y tîm cyfraith gyhoeddus) a Safonau Deddfwriaethol i Gymru (y tîm cyfraith gyhoeddus).

2. Recriwtio

Meini prawf llwyddiant:

- a) Mae system effeithiol ar waith i fonitro'r modd y mae'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yn recriwtio staff ac yn penodi barnwyr er mwyn gwneud yn siŵr bod yr ymrwymadau yn y Cynllun Iaith Gymraeg yn cael eu bodloni.
- b) Mae achosion llys yn cael eu cynnal yn effeithiol yn Gymraeg pan fydd angen.
- c) Mae agwedd gyson at y Gymraeg wrth recriwtio ynadon a barnwyr.

Adult Social Care has been implemented by the National Assembly in the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014; and the Renting Homes (Wales) Act 2016 implemented the LC's recommendations on Renting Homes in Wales.

The LC has one current project relating to devolved law, namely Planning Law in Wales: <http://www.lawcom.gov.uk/project/planning-law-in-wales/>. There were 59 responses to the LC's scoping paper, published in July 2016; with 96% of respondents agreeing there was a case for a new planning code. The consultation paper will be published later in 2017.

The LC is also presently sifting suggestions for their next three-year programme of law reform ("the 13th programme"). A number of the suggested projects have a Welsh dimension or touch on devolved areas. Two projects are Welsh specific: Codification of Welsh Law (public law team) and Legislative Standards for Wales (public law team).

2. Recruitment

Success criteria:

- a) An effective system exists to monitor MoJ's recruitment of staff and appointment of judges to ensure that it meets its commitments made in the Welsh Language Scheme.
- b) Court proceedings are held in Welsh effectively where required.
- c) Consistent approach to the Welsh language in the recruitment of magistrates and judges.

a) Staff

Meini prawf llwyddiant: a) Mae system effeithiol ar waith i fonitro'r modd y mae'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yn recriwtio staff ac yn penodi barnwyr er mwyn gwneud yn siŵr bod yr ymrwymadau yn y Cynllun Iaith Gymraeg yn cael eu bodloni.

Rydym yn parhau i hysbysebu swyddi'n ddwyieithog pan fydd hynny'n briodol. Fel o'r blaen, mae trefniadau ar gyfer asesu gofynion ieithyddol swyddi yn cael eu dirprwyo i'r rheolwyr recriwtio. Fodd bynnag, nid oes cofnod yn cael ei gadw'n ganolog o ofynion ieithyddol swyddi.

Mae system e-recriwtio World Careers Network wedi cael ei rhoi ar waith yn llawn erbyn hyn. Mae'r llwyfan hwn yn gallu cynnwys disgrifiadau swydd yn Gymraeg ac yn Saesneg ar gyfer swyddi yng Nghymru. Bydd ymgeiswyr yn cael opsiwn hefyd i gael eu cyfwrdd yn y naill iaith neu'r llall. Ar gyfer swyddi nad ydynt yng Nghymru, bydd disgrifiadau swydd yn ymddangos yn Saesneg yn ddiodyn; fodd bynnag, bydd modd i ymgeiswyr ofyn am gael cyfieithiad Cymraeg o'r disgrifiad swydd.

Rydym wedi rhoi'r Cod ymarfer ar y Gofyniad Iaith Saesneg ar gyfer Gweithwyr Sector Cyhoeddus (Deddf Mewnffudo 2016) ar waith, sy'n mynnu bod pob gweithiwr yn y sector cyhoeddus sy'n gwneud swyddi sy'n ymwneud â'r cyhoedd yn gallu siarad Saesneg yn rhugl, neu, yng Nghymru, yn gallu siarad Cymraeg neu Saesneg.

Mae'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr yn dal i ddilyn ei Gynllun Iaith Gymraeg ac mae'n hysbysebu pob ymgyrch allanol yng Nghymru yn y ddwy iaith. Mae'r Gymraeg yn cael ei rhestru fel maen prawf 'Dymunol' ar gyfer pob swydd yng Nghymru. Roedd un o weithwyr CEM Berwyn yn awyddus i wneud ei arholiad swyddog carchar drwy gyfrwng y Gymraeg, a threfnwyd bod hynny'n digwydd.

a) Staff

Success criteria: a) An effective system exists to monitor MoJ's recruitment of staff and appointment of judges to ensure that it meets its commitments made in the Welsh Language Scheme.

We continue to place dual-language advertisements for posts where appropriate. As previously, arrangements for assessing the linguistic requirements of posts are delegated to recruiting managers. However, no central record is kept of the linguistic requirements of posts.

The World Careers Network (WCN) e-recruitment system has now been fully implemented. The WCN platform can host job descriptions in both English and Welsh for jobs that are based in Wales. Candidates will also have the option to interview in either language. For jobs not based in Wales, job descriptions will be in English by default; however, candidates are able to ask for the job description to be translated into Welsh.

We have implemented the English Language Requirements for Public Sector Workers Code of Practice (Immigration Act 2016), which requires all public-sector workers in public-facing roles to speak fluent English or in Wales, English or Welsh.

NOMS continues to follow the NOMS Welsh Language Scheme and advertises all external campaigns in Wales in dual language. Welsh language is listed as a 'Desirable' criterion for every post in Wales. An employee at HMP Berwyn was keen to complete their prison officer exam in Welsh and this request was facilitated.

Yn fwy cyffredinol, mae Un Llwyfan Gweithredu newydd ar gyfer adnoddau dynol ar draws y gwasanaeth sifil wedi disodli'r hen system Phoenix, ac mae'n gallu casglu data ar bob aelod o staff sy'n datgan mai Cymraeg yw ei ddewis iaith.

b) Achosion llys

Meini prawf llwyddiant: *b) Mae achosion llys yn cael eu cynnal yn effeithiol yn Gymraeg pan fydd angen.*

Drwy fynd ati'n effeithiol i ddod o hyd i farnwyr ac ynadon Cymraeg eu hiaith, a'u recriwtio ar ôl hynny, gellir cynnal achosion llys yn Gymraeg pan fydd angen. Yn ystod y flwyddyn adrodd, cofnododd GLITEM 576 o achosion lle defnyddiwyd y Gymraeg.

c) Y farnwriaeth

Meini prawf llwyddiant: *c) Mae agwedd gyson at y Gymraeg wrth recriwtio ynadon a barnwyr.*

Cwblhawyd pump ar hugain o ymarferion dethol barnwrol, ac adroddwyd yn eu cylch, yn 2016–17. Bydd y maes busnes a'r farnwriaeth yn gweld beth yw'r gofynion ar gyfer swyddi gwag o safbwynt y Gymraeg, a bydd y Comisiwn Penodiadau Barnwrol yn asesu'r rhain. O blith yr ymarferion dethol hyn:

- Roedd gofynion o ran y Gymraeg a meini prawf ar gyfer cwestiynau Cymraeg yn berthnasol i un ymarfer dethol: Barnwr Adran 9(1). Roedd hwn yn ymarfer cenedlaethol gyda 38 o swyddi gwag i gyd, un ohonynt yn swydd wag yng Nghymru yr oedd angen siaradwr Cymraeg ar ei chyfer.

More generally, a new civil-service wide HR Single Operating Platform (SOP) has replaced the old Phoenix system and is able to capture data on all staff who declare their preferred language as Welsh.

b) Court proceedings

Success criteria: *b) Court proceedings are held in Welsh effectively where required.*

The effective identification and subsequent recruitment of Welsh-speaking judges and magistrates enables court proceedings to take place in Welsh when required. During the reporting year HMCTS recorded 576 cases where Welsh was used.

c) The judiciary

Success criteria: *c) Consistent approach to the Welsh language in the recruitment of magistrates and judges.*

Twenty-five judicial selection exercises were completed and reported in 2016–17. The business area and the judiciary identify the Welsh language requirements for vacancies, which the Judicial Appointments Commission assesses. Of these selection exercises:

- One selection exercise had both Welsh language requirements and Welsh questions criteria applied: Section 9(1) judge. This was a national exercise with 38 vacancies overall, one of which was a Welsh-speaking vacancy in Wales.

Nid oedd gofynion o ran y Gymraeg yn berthnasol i'r ymarferion dethol canlynol ar gyfer swyddi gwag yng Nghymru, ond roedd y maen prawf cymhwysedd anstatudol ar gyfer Cymru yn berthnasol:

- **Barnwr Cylchdaith**; ymarfer cenedlaethol a lansiwyd ar 5 Chwefror 2016 gyda 55 o swyddi gwag i gyd, tair ohonynt yng Nghymru. Dewiswyd dau, a thynnwyd y trydydd o'r broses ar ôl iddo fethu prawf 'cymeriad da' y Comisiwn Penodiadau Barnwrol. O blith y 42 ymgeisydd a argymhellwyd gan y Comisiwn Penodiadau Barnwrol, cafodd 3 eu penodi ar unwaith i Fainc y Gylchdaith yng Nghymru gan yr Arglwydd Brif Ustus.
 - **Uwch Farnwr Cylchdaith, Barnwr Sifil Dynodedig Cymru**; un swydd, lansiwyd yr ymarfer dethol ar 25 Chwefror 2016. Dewiswyd un ymgeisydd.
 - **Dirprwy Farnwr Rhanbarth (Llys Ynadon)**; ymarfer cenedlaethol a lansiwyd ar 28 Mehefin 2016 gydag 18 o swyddi gwag i gyd. Argymhellwyd un ymgeisydd ar gyfer Cymru.
 - **Barnwr Preswyl, Tribiwnlys Haen Gyntaf, Siambr Mewnffudo a Lloches Cymru**; un swydd, lansiwyd yr ymarfer dethol ar 9 Tachwedd 2016. Dewiswyd un ymgeisydd.
 - **Aelodau Meddygol sy'n Derbyn Ffi, Tribiwnlys Haen Gyntaf, Siambr Iechyd, Addysg a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Meddwl) ac Aelodau Meddygol sy'n Derbyn Ffi, Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru**. Lansiwyd yr ymarfer hwn ar 10 Chwefror 2016 gyda hyd at 10 swydd wag yng Nghymru, a dewiswyd 10. Yn ddiweddarach, gwrthododd tri o'r ymgeiswyr y penodiad.
- The following selection exercises identified vacancies in Wales that did not have Welsh language requirements but the non-statutory eligibility criteria for Wales applied:
- **Circuit Judge**; a national exercise which launched on 5 February 2016 with 55 vacancies overall, three of which were based in Wales. Two selections were made to these posts, with a third removed from the process for failing the JAC 'good character' test. The Lord Chief Justice deployed 3 of the 42 candidates the JAC recommended for immediate appointment to the Circuit Bench to Wales.
 - **Senior Circuit Judge, Designated Civil Judge Wales**; a singleton post, the selection exercise launched on 25 February 2016. One candidate was selected.
 - **Deputy District Judge (Magistrates' Court)**; a national exercise which launched on 28 June 2016 with 18 vacancies overall. One candidate was recommended to Wales.
 - **Resident Judge, First-tier, Immigration and Asylum Chamber in Wales**; a singleton post, the selection exercise launched on 9 November 2016. One candidate was selected.
 - **Fee-paid Medical, First-tier Health, Education and Social Care Chamber (Mental Health) and Fee-paid Medical, Mental Health Review Tribunal for Wales**. An exercise that launched on 10 February 2016 with up to 10 vacancies in Wales with 10 selections made. Three candidates later declined the appointment.

Mae **Adran 83 Deddf Llywodraeth Cymru 2006** yn caniatáu i Lywodraeth Cymru ofyn am gymorth gan gyrff cyhoeddus eraill. Cynorthwyodd y Comisiwn Penodiadau Barnwrol Lywodraeth Cymru yn yr ymarfer canlynol:

- **Llywydd Panel Dyfarnu Cymru**; un swydd gyda'r ymarfer dethol yn cael ei lansio ar 10 Chwefror 2016. Nid oedd unrhyw ofyniad o ran y Gymraeg, ac roedd y cwestiynau am feini prawf o ran y Gymraeg yn berthnasol. Dewiswyd un ymgeisydd.

Nifer y siaradwyr Cymraeg a benodwyd i'r Farnwriaeth

Roedd yr ymgeisydd a argymhellwyd i fod yn Farnwr Cyflogedig Cyflogaeth Ranbarthol yn gallu siarad Cymraeg ar lefel sgysiol canolradd. Argymhellwyd tri siaradwr Cymraeg yn ymarfer dethol y Barnwr Rhanbarth, a dau yn ymarfer dethol Llywodraeth Cymru ar gyfer Panel Dyfarnu Cymru. Er mai'r rhain yw'r rhai rydym yn ymwybodol ohonynt, gallai nifer y siaradwyr Cymraeg a argymhellwyd, fodd bynnag, fod yn uwch mewn ymarferion lle nad oedd y Gymraeg yn faen prawf 'hanfodol' na 'dymunol', gan na ofynnir am y wybodaeth hon bob amser. Gan symud ymlaen, byddwn yn gofyn i bob ymgeisydd ar gyfer penodiad barnwrol gadarnhau a yw'n gallu siarad Cymraeg pan fydd yn derbyn y cynnig, p'un ai a oedd y Gymraeg yn cael ei hystyried yn un o'r gofynion ar gyfer y swydd wag ai peidio.

Pwyllgorau Ymgynghorol a phenodiadau i'r Ynadaeth

Yn ystod 2016–17, nododd Pwyllgorau Ymgynghorol yr Arglwydd Ganghellor yng Nghymru ddwy ardal lle'r oedd angen i ynadon allu cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg. Yng Ngogledd-ddwyrain Cymru, roedd y Pwyllgor Ymgynghori'n dweud bod angen pum ynad dwyieithog, a phenodwyd pump, sef cyfanswm y ffigur recriwtio. Yng Nghanol Gogledd Cymru (Conwy a Sir Ddinbych), roedd angen tri ynad Cymraeg o gyfanswm o chwech, ond dim ond tri ynad a benodwyd, un ohonynt yn gallu siarad Cymraeg.

Section 83 of the Government of Wales Act 2006 allows the Welsh Government to seek assistance from other public bodies. The JAC provided assistance to the Welsh Government for the following exercise:

- **President of the Adjudication Panel Wales**; a singleton post with the selection exercise launched on 10 February 2016. There was no Welsh language requirement, and the Welsh criteria questions applied. One candidate was selected.

Number of Welsh speakers appointed to the Judiciary

The candidate recommended to Salaried Regional Employment Judge could speak Welsh at an intermediate conversational level. There were three Welsh speakers recommended on the District Judge selection exercise, and two on the Welsh Government selection exercise for the Adjudication Panel Wales. Although these are the ones that we are aware of, the number of Welsh speakers recommended, however, may be higher in exercises where Welsh language was not specified as an 'essential' or 'desirable' criterion, as this information is not always requested. Moving forward, we will be asking all candidates for judicial appointment to confirm whether they are Welsh speaking at the time they accept the offer of appointment, regardless of whether Welsh language was considered a requirement for the vacancy.

Advisory Committees and appointments to the Magistracy

During 2016–17 the Lord Chancellor's Advisory Committees in Wales identified two areas with a need for justices to be able to communicate through the medium of the Welsh language. In North East Wales, the Advisory Committee identified the need for five bilingual justices and five were appointed, representing the total recruitment figure. In Central North Wales (Conwy and Denbighshire), a need was identified for three Welsh-speaking justices out of a total of six, but only three justices were appointed, one of whom is able to speak Welsh.

Y Coleg Barnwrol

Cyfarfu Pwyllgor Hyfforddi Cymru ddwywaith yn ystod y cyfnod dan sylw a'i brif flaenoriaeth ar gyfer 2016–17 oedd llunio strategaeth ar gyfer delio â goblygiadau hyfforddiant deddfwriaeth ddatganoledig Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a sut gall y Coleg Barnwrol helpu'r farnwriaeth.

Cynhaliwyd seminar undydd ar yr iaith Gymraeg ym mis Mawrth 2017. Nod y seminar yn gyffredinol oedd rhoi arweiniad a hyfforddiant arbenigol ar wella gallu a phrofiad y farnwriaeth wrth wneud datganiadau ffurfiol a rhyngweithio â defnyddwyr y llys drwy gyfrwng y Gymraeg. Cafodd y seminar hon ei dynodi'n seminar ddewisol er mwyn i'r farnwriaeth allu dal ati i fynd i hyfforddiant dilynol arferol yr awdurdodaeth. Yn ystod mis Mawrth 2017, cyhoeddwyd y protocol diweddaraf ar ddefnyddio'r Gymraeg mewn llysoedd ynadon. Yn ystod y flwyddyn, cynhaliwyd digwyddiad hyfforddi undydd ar gyfraith teulu i ynadon, a hynny drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae fersiynau Cymraeg o Gardiau Datganiad y Llys Ieuencid a'r Llys Oedolion, a grëwyd gan y Coleg Barnwrol, ar gael ochr yn ochr â'r fersiynau Saesneg. Diweddarwyd y fersiynau Cymraeg a Saesneg gyda'i gilydd yn ystod 2016 ac maent yn ymdrin â dedfrydu, gohiriadau, gorchmynion ategol a gweithdrefnau ar gyfer anfon achosion i Lys y Goron, hysbysiadau ynghylch troseddau rhyw, troseddau difrifol iawn a chyfyngiadau adrodd, a datganiadau eraill sy'n berthnasol i'r Llys Ieuencid a'r Llys Oedolion. Mae fersiwn Gymraeg o Gardiau Cyfeirio'r Llys Teulu, a grëwyd gan y Coleg Barnwrol, ar gael hefyd. Mae'r rhain yn rhoi sylw i'r gorchmynion sydd ar gael i'r Llys Teulu, yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus a'r Arweiniad Dyrannu. Darperir y cardiau drwy System Rheoli Dysgu'r Coleg Barnwrol, y mae modd i ynadon gael mynediad ati.

The Judicial College

The Wales Training Committee met twice during the period under review and its key priority for 2016–17 was to develop a strategy for dealing with the training implications of the devolved legislation by the Welsh Assembly and how the Judicial College can assist the judiciary.

A one-day Welsh language seminar was held in March 2017. The overall aim of the seminar was to "provide guidance and expert tuition in improving the ability and enhancing the experience of the judiciary in making formal pronouncements and interacting with all court users through the medium of the Welsh language". This seminar was designated as an optional seminar in order that judiciary could still attend their usual jurisdictional continuation training. An updated protocol for when the Welsh language is used in magistrates' courts was issued during March 2017. During the year a one-day family law magistrates training event was also delivered through the medium of Welsh.

Welsh versions of the Adult and Youth Court Pronouncement Cards produced by the Judicial College are available alongside the English versions. Both the English and Welsh versions were simultaneously updated during 2016 and cover sentencing, adjournments, ancillary orders and procedures for sending cases to the Crown Court, sexual offences notifications, grave crimes and reporting restrictions and other pronouncements relevant to the Adult and Youth Courts respectively. There is also a Welsh version of the Family Court Reference Cards produced by the Judicial College which covers the orders available to the Family Court, the Public Law Outline and Allocation guidance. The cards are provided through the Judicial College Learning Management System (LMS), which is accessible by magistrates.

Mae Barnwyr Cyswllt yr Iaith Gymraeg wedi dweud yr hoffent atgyfodi'r Gweithgor ar Safoni termau Cymraeg. (Ar hyn o bryd, mae Gwasanaeth Cyfieithu Llywodraeth Cymru yn dilyn y canllawiau safoni a baratowyd yn 2007 gan Ganolfan Bedwyr, Prifysgol Bangor, ar ran y Gwasanaeth Cyfieithu a Bwrdd yr Iaith Gymraeg.)

Y Cyngor Dedfrydu

Yn y gorffennol, mae'r Cyngor wedi ystyried manteision creu ei Gynllun Iaith Gymraeg ei hun, ond mae wedi dod i'r casgliad na fyddai'n ymarferol cael Cynllun Iaith Gymraeg gwahanol i un y Weinyddiaeth Cyfiawnder a GLITEM. Felly bydd y Cyngor yn mabwysiadu cynllun corfforaethol y Weinyddiaeth Cyfiawnder.

Er mwyn ateb gofynion y cynllun hwnnw, mae'r Cyngor Dedfrydu yn creu adran Gymraeg ar ei wefan a fydd yn rhoi Canllawiau Dedfrydu'r Llysoedd Ynadon yn Gymraeg. Mae'r Cyngor wedi penodi cyflenwr digidol i gynnal y wefan Saesneg bresennol ac i greu'r adran Gymraeg. Mae Uned yr Iaith Gymraeg GLITEM wedi cytuno i gyfieithu'r deunydd a llwytho'r canllawiau sydd wedi'u cyfieithu yn syth i'r adran Gymraeg. Maent hefyd wedi cytuno i gynnal y safle gan eu bod yn meddu ar y wybodaeth arbenigol sydd ei hangen i wneud hynny.

The Welsh Language Liaison Judges have indicated they would like to revive the Working Party on Standardisation of Welsh terms. (The Welsh Government Translation Service currently follows the standardisation guidelines prepared in 2007 by Canolfan Bedwyr, Bangor University on behalf of the Translation Service and the Welsh Language Board.)

Sentencing Council

The Council has previously considered the merits of devising its own Welsh Language Scheme but has concluded that it is not practical to establish a separate Welsh Language Scheme to that of MoJ and HMCTS. The Council will therefore adopt the corporate MoJ scheme.

In order to meet the requirements of that scheme the Sentencing Council is developing a parallel Welsh section for its website that will provide Welsh Magistrates' Courts Sentencing Guidelines. The Council has appointed a digital supplier to maintain the current English language website and to establish the Welsh section. The Welsh Language Service of HMCTS has agreed to provide translations and upload the translated guidelines direct to the Welsh section, and to maintain that site as they have the necessary expertise.

3. Gohebiaeth

Meini prawf llwyddiant:

Ymatebir i ohebiaeth Gymraeg o fewn yr un amserlenni â gohebiaeth arall.

Gohebiaeth ysgrifenedig

Yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn, ni chafodd Tîm Cymorth Gohebiaeth Weinidogol y Weinyddiaeth Cyfiawnder unrhyw ohebiaeth Gymraeg. Mae system gofnodi wedi cael ei chreu i fonitro lefelau'r ohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn 2017–18, ac mae staff wedi cael eu hatgoffa i gadw cofnod o unrhyw ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg ar y gronfa ddata. Mae hyn yn cynnwys copïau caled drwy'r post neu ohebiaeth electronig dros e-bost. Mae staff sy'n delio â gohebiaeth ar draws yr adran wedi cael eu hatgoffa hefyd bod angen ateb unrhyw ohebiaeth sy'n dod i law yn y Gymraeg yn y Gymraeg.

Cyfathrebu dros y ffôn

Y Tîm Ymholiadau Cyhoeddus (sy'n rhan o ganolfan alwadau Cydwasanaethau ehangach yng Nghymru sy'n delio â busnes amrywiol i bartion eraill) sy'n delio â Llinell Ymholiadau Cyhoeddus y Weinyddiaeth Cyfiawnder, ar gyfer galwadau gan unigolion sy'n ffonio'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yn unig. Daw'r galwadau'n bennaf gan unigolion sydd am gael eu trosglwyddo i rywun yn y Pencadlys yn 102 Petty France, fel GLITEM, yr Uned Crwneriaid neu swyddfa'r wasg, er enghraifft. Y cyhoedd neu randdeiliaid allanol, gan gynnwys Adrannau Eraill y Llywodraeth, sy'n gwneud y galwadau hyn fel arfer.

Mae tîm Llinell Ymholiadau Cyhoeddus y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn cynnwys dau weithiwr ffôn ac arweinydd tîm. Nid yw'r gweithwyr ffôn ar switsfwrdd y Llinell yn rhoi unrhyw gyngor na gwybodaeth am y Weinyddiaeth Cyfiawnder, dim ond trosglwyddo galwadau i'r unigolyn priodol neu roi manylion e-bost ar gyfer blychau post.

3. Correspondence

Success criteria:

Welsh correspondence is responded to in Welsh within the same timescales as other correspondence.

Written correspondence

During the period of this report the MoJ Ministerial Correspondence Support Team received no Welsh correspondence. A log has been set up to monitor levels of Welsh correspondence received in 2017–18 and staff have been reminded to record any correspondence received in Welsh on the database. This includes hard copy correspondence sent by post or electronic correspondence by email. Correspondence staff across the department have also been reminded that any correspondence received in Welsh should be replied to in Welsh.

Telephone communications

The Public Enquiry Team (which is part of a wider Shared Services call centre based in Wales that handles a wide range of business for other parties) handles the MoJ Public Enquiry Line (PEL) for calls from people calling the MoJ only. Calls received are mainly from people wanting to be put through to someone in 102 Petty France Headquarters such as HMCTS, Coroners Unit or press office. These calls are from the general public or external stakeholders including Other Government Departments.

The MoJ PEL team comprises two operators and a team leader. The operators on the PEL switchboard do not provide advice or MoJ information other than transferring callers through to the appropriate party or providing email details for functional mail boxes.

Rhif Llundain yw rhif y galwadau a dderbynnir gan dîm y Llinell Ymholiadau Cyhoeddus. Nid yw'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yn hysbysebu unrhyw ddewisiadau iaith i'r rheini sy'n galw; fodd bynnag, os bydd rhywun am siarad Cymraeg yn unig, mae'r tîm yn gallu delio â'r cais oherwydd bod gan dîm y ganolfan alwadau Cydwasanaethau 20 siaradwr Cymraeg rhugl.

Yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn, nid oes galwr wedi ceisio cyfathrebu â'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yn Gymraeg. Hyd yn oed pan mae galw'r wedi cael gwybod bod y tîm sy'n ateb yr alwad yn Ne Cymru, nid ydynt wedi ymateb drwy geisio cael sgwrs yn Gymraeg. Yn ystod y cyfnod hwn, nid yw'r Weinyddiaeth Cyfiawnder wedi cael unrhyw gwynion am y ffaith nad oes dewis Cymraeg ffurfiol.

4. Cyfarfodydd

Meini prawf llwyddiant:

Mae staff yn gwybod yn iawn pryd mae angen gwasanaeth cyfieithu ar y pryd.

Fel y nodwyd yn yr adroddiad a luniwyd y flwyddyn ddiwethaf, nid yw'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yn cadw cofnodion canolog o ddiwyddiadau a gynhelir ar draws y busnes sy'n cynnwys cyfarfodydd yng Nghymru lle'r oedd trefniadau penodol i hwyluso defnydd o'r Gymraeg. Ceir arweiniad ar fewnwyd y Weinyddiaeth Cyfiawnder i helpu staff gyda chyfleusterau ac anghenion cyfieithu ar gyfer cyfarfodydd a digwyddiadau sy'n cynnwys y cyhoedd yng Nghymru.

Grŵp Cydlynwyr Iaith Gymraeg y Weinyddiaeth Cyfiawnder

Roedd y Weinyddiaeth Cyfiawnder wedi enwi aelodau i fod yn rhan o grŵp ehangach o gysylltiadau. Bydd y rhain yn gweithredu fel Cydlynwyr Iaith Gymraeg ar gyfer amrywiol feysydd busnes y Weinyddiaeth Cyfiawnder a'r cyrff cysylltiedig, gan gynnwys yr is-adrannau busnes.

Calls received by the PEL team are via a London number. MoJ does not advertise any language options to callers; however, should someone call and wish to speak only in Welsh, the PEL can accommodate the request as the wider Shared Services call centre team has 20 fluent Welsh speakers.

During the period of this report there has not been a caller who has tried to communicate with MoJ in Welsh. Even when callers are made aware that the answering team are in South Wales, callers have not responded by trying to have a conversation in Welsh. During this period MoJ has not received any complaints about the lack of a more formal Welsh language option.

4. Meetings

Success criteria:

Staff are clear when translation facilities are needed.

As indicated in last year's report, MoJ does not hold central records of events held across the business regarding meetings in Wales where specific arrangements were made to facilitate the use of the Welsh language. There is guidance on the MoJ intranet to help staff with identifying translation needs and facilities for meetings and events with the public in Wales.

MoJ's Welsh Language Co-ordinators Group

MoJ had previously identified members for an extended group of contacts who will act as Welsh Language Co-ordinators for the various MoJ business areas and associated bodies, including the business arms.

Mae cylch gwaith y grŵp yn cynnwys:

- Canolbwyntio ar faterion sy'n gysylltiedig â chyflwyno ein Cynllun Iaith Gymraeg presennol a Chynlluniau Iaith Gymraeg diwygiedig yn y dyfodol
- Rhannu enghreifftiau o arferion gorau i helpu i godi ymwybyddiaeth a rhannu syniadau
- Darparu fforwm i aelodau allu trafod materion sy'n dod i'r amlwg mewn perthynas â'r Gymraeg
- rhoi cydgefnoogaeth i Gydlynwyr Iaith Gymraeg y Weinyddiaeth Cyfiawnder a helpu i lywio cyfeiriad y Polisi Iaith Gymraeg yn y dyfodol.

Gall aelodau ddefnyddio'r grŵp i ddod o hyd i wybodaeth ac enghreifftiau i'w helpu i wneud penderfyniadau, ond ni chaiff y grŵp wneud y penderfyniadau hynny ar eu rhan.

Cynhaliwyd y cyfarfod diweddaraf ym mis Mawrth 2017, ac roedd sawl aelod newydd wedi ymuno â'r grŵp. Roedd Pennaeth Uned Gyfieithu GLITEM yn siaradwr gwadd, ynghyd ag uwch reolwr o Dîm Profiad Defnyddwyr GLITEM. Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal yn ystod tymor yr hydref 2017. Rhwng cyfarfodydd, mae gan y Grŵp fforwm drafod rithiol *ad hoc* ar faterion sy'n ymwneud â'r Gymraeg, lle gellir rhannu cyngor, yn enwedig ynghylch pryd y bydd angen gwasanaethau cyfieithu i'r Gymraeg o bosib.

Fforwm Ymgysylltu Cymru Teirochrog – Llywodraeth Cymru

Mae hwn yn fforwm rheolaidd sy'n cynnwys cynrychiolaeth o sawl maes (Polisi, diwygio GLITEM, diwygio'r Weinyddiaeth Cyfiawnder a GLITEM Cymru) sy'n ymgysylltu â Llywodraeth Cymru a darparu un pwynt cyswllt ar ei chyfer. Mae GLITEM Cymru yn darparu cymorth ysgrifenyddol yn y lleoliad yng Nghaerdydd. Roedd y pynciau a drafodwyd ym mis Ionawr 2017 yn cynnwys Diwygio Llysoedd a Thribiwnlysoedd, Cymorth Digidol a Chyflawni Diwygio yng Nghymru.

The remit of the group is to:

- Focus on issues relating to delivery of our current Welsh Language Scheme (WLS) and future revised WLS
- Share examples of best practice to help raise awareness and replicate ideas
- Provide a forum for members to discuss emerging Welsh language issues
- Provide mutual support for MoJ's Welsh Language Co-ordinators and help inform the future direction of Welsh language policy

Members can use the group to find information and examples to inform the decisions they make but the group cannot make those decisions for them.

The latest meeting was held in March 2017 with several new additions to the group. The Head of the HMCTS Welsh Translation Unit was guest speaker, together with a senior manager from the HMCTS User Experience Team. The next meeting will be held in autumn 2017. The Group also operates as an *ad hoc* virtual discussion forum on Welsh Language issues between meetings to share advice, especially on when Welsh translation services may be required.

Tri-Lat Wales Engagement Forum – Welsh Government

This is a regular forum with cross-representation (Policy, HMCTS reform, MoJ reform and HMCTS Wales) to engage with, and provide a single point of contact for, the Welsh Government. HMCTS Wales provides secretariat support at the venue in Cardiff. Topics discussed at the January 2017 meeting included Court and Tribunal Reform, Assisted Digital and Delivering Reform in Wales.

5. Hunaniaeth gorfforaethol

Meini prawf llwyddiant:

Cysondeb yn y ffordd y mae'r iaith Gymraeg yn cael ei defnyddio.

Yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn, mae Tîm Cyfathrebu Corfforaethol y Weinyddiaeth Cyfiawnder wedi bod yn gweithredu fel arfer o ran gweithgareddau sy'n ymwneud â'r Gymraeg. Meysydd Polisi'r Weinyddiaeth Cyfiawnder sy'n gyfrifol am wneud penderfyniad ynghylch a ddylid cyhoeddi dogfen yn Gymraeg, yn unol â'r arweiniad yng Nghynllun Iaith Gymraeg y Weinyddiaeth Cyfiawnder. Mae tîm dylunio canolog y Weinyddiaeth – DESIGN102 – yn defnyddio Uned Iaith Gymraeg GLITEM ar gyfer yr holl waith cyfieithu sydd ei angen ar feysydd busnes y Weinyddiaeth. Mae canllawiau'r Weinyddiaeth Cyfiawnder ar frandio yn rhoi cyngor manwl am frandio Cymraeg (dwyieithog).

6. Cyhoeddiadau a ffurflenni

Meini prawf llwyddiant:

- a) *Cysondeb yn y ffordd y mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio.*
- b) *Bydd pob dogfen sy'n cael ei llunio yn Gymraeg ac yn Saesneg yn cael ei llunio i'r un safon, gan ddilyn yr un amserlen.*

Pan fydd tîm dylunio'r Weinyddiaeth Cyfiawnder, DESIGN102, yn llunio dogfen Saesneg sydd angen ei chyfieithu i'r Gymraeg, bydd yn rhoi ffeiliau sy'n cynnwys y gwaith celf i Uned Iaith Gymraeg GLITEM er mwyn iddynt allu sicrhau bod fformat y fersiwn Gymraeg a'r Saesneg yr un fath. Gan fod deunyddiau'n aml yn hwyr yn cael eu cymeradwyo, a newidiadau'n cael eu gwneud i'r dogfennau Saesneg munud olaf neu fersiynau newydd yn cael eu cyflwyno, nid yw'n bosib bob amser creu'r fersiwn Gymraeg a'r fersiwn Saesneg gyda'i gilydd. Serch hynny, bydd y fersiwn Gymraeg yn cael ei chyhoeddi cyn gynted ag y bo modd ar ôl y fersiwn Saesneg. Bydd pob dogfen sy'n cael ei llunio yn Gymraeg ac yn Saesneg yn cael ei llunio i'r un safon.

5. Corporate identity

Success criteria:

Consistency in the way the Welsh language is used.

During the period of this report, MoJ's Corporate Communications Team has been operating in its business-as-usual capacity for Welsh language activities. MoJ Policy areas are responsible for making a decision as to whether to publish a document in Welsh in line with the MoJ Scheme guidance. MoJ's central design team – DESIGN102 – uses the HMCTS Welsh Language Unit for all translations required by MoJ business areas. The MoJ brand guidelines provide detailed advice on Welsh (dual) branding.

6. Publications and forms

Success criteria:

- a) *Consistency in the way the Welsh language is used.*
- b) *All documents produced in both Welsh and English versions are produced to the same standard and to the same timescale.*

When MoJ's design team, DESIGN102, designs a document in English which requires a Welsh translation, DESIGN102 will provide the artwork files to the HMCTS Welsh Language Unit, enabling them to format the Welsh version in the same style. Due to the late sign-off and frequent last-minute changes and iterations of some English documents, it is not always possible to produce both Welsh and English versions simultaneously, although the Welsh version is published as quickly as possible thereafter. All documents produced in both Welsh and English are produced to the same standard.

Rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2017, roedd costau cyfieithu'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yn £47,684:

- Y Weinyddiaeth Cyfiawnder (cyfarwyddiaethau'r pencadlys corfforaethol) – £27,644
- Yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol – £3,918
- Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus – £12,454
- Comisiwn y Gyfraith – £3,668

MoJ translation costs from 1 April 2016 to 31 March 2017 totalled £47,684 comprising:

- MoJ (corporate HQ directorates) – £27,644
- Legal Aid Agency – £3,918
- Office of the Public Guardian – £12,454
- Law Commission – £3,668

7. Datganiadau i'r wasg

Meini prawf llwyddiant:

Cysondeb yn y ffordd y mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio.

Roedd modd lawrlwytho'r datganiad canlynol i'r wasg yn Gymraeg:

Yr Ysgrifennydd Cyfiawnder yn cyhoeddi cynlluniau i greu 5,000 o lefydd mewn carchar modern, 22 Mawrth 2017.

<https://www.gov.uk/government/news/wales-at-forefront-of-new-plans-to-create-5000-modern-prison-places>

Pan agorwyd CEM Berwyn ar 28 Chwefror 2017, cynhaliodd y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwy'r daith gwbl ddwyieithog o'i amgylch ar gyfer y wasg. Darparodd y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwy'r uwch reolwr a swyddog rheng flaen i gyfieithu taith y cyfryngau i'r Gymraeg a rhoi cyfweiliadau ar gyfer tri chyhoeddiad Cymraeg. Darlledwyd y cyfweiliadau ar BBC Cymru Wales, Heart/Capital Cymru ac ITV Cymru. Mae Berwyn wedi ymddangos yng nghylchgrawn *Goldwg* hefyd.

7. Press notices

Success criteria:

Consistency in the way the Welsh language is used.

This following press release was available to download in Welsh:

Justice Secretary announces plans to create 5,000 modern prison places, 22 March 2017. <https://www.gov.uk/government/news/wales-at-forefront-of-new-plans-to-create-5000-modern-prison-places>

On the opening of HMP Berwyn, 28 February 2017, NOMS did a fully bilingual tour for the press. NOMS provided a member of senior management and a frontline officer to translate the media tour into Welsh and give interviews for three Welsh language publications. The interviews went out on BBC Wales, Heart/Capital Wales and ITV Wales. Berwyn was also featured in *Goldwg*, a Welsh language newspaper.

Ar gyfer y daith, gwahoddwyd y wasg i CEM Berwyn a chawsant eu tywys o amgylch y carchar (Bala – y bloc cyntaf i gael ei agor) gan gynnwys y gegin a'r cyfleusterau ar gyfer addysg ac ymweliadau. Arweiniwyd y daith gan Ddirprwy Gyfarwyddwr Prosiect CEM Berwyn a swyddog rheng flaen, ynghyd ag Uwch Swyddog Prawf. Roedd swyddog Cymraeg rheng flaen yn gweithio ochr yn ochr â'r rhain yn Gymraeg ar gyfer y cyfryngau Cymraeg.

Diolch i bartneriaeth gwerth £18.7miliwn rhwng Novus (darparwr mwyaf rhaglenni cyflogadwyedd, hyfforddiant ac addysg i droseddwr yn y DU) a Choleg Cambria, bydd y coleg ar y safle yn cynnig pob math o gyfleoedd i roi hwb i sgiliau'r dynion. Mae dosbarthiadau Cymraeg ar gael i'r staff ac i'r dynion hefyd, yn ogystal ag ystafell gyfryngau, dosbarthiadau celf a llyfrgell.

Ar ôl cyrraedd adain Bala, roedd rhwydd hant i'r cyfryngau ffilmio a recordio cyfweiliadau â'r staff yn y carchar ei hun. Yn y neuadd ymweld, roedd y cyfryngau'n cael gweld llywodraethwr y carchar a'i ddirprwy.

For the tour, the press was invited in and given a full tour of the prison (Bala – the first house block open) including education, kitchen and visit facilities. The Deputy Project Director for HMP Berwyn and a front-line prison officer conducted the tour with a Senior Probation Officer. A Welsh-speaking front-line officer worked alongside in Welsh for the Welsh media.

Provided by an £18.7m partnership between Novus (the UK's largest provider of education, training and employability programmes to offenders) and Coleg Cambria, the site's college will offer a range of opportunities to boost the men's skill sets. Welsh classes for both the men and staff are also available, along with a media suite, art classes and a library facility.

On reaching the Bala wing, the media was free to film and record interviews with the staff in the prison environment. At the visits hall, the media had access to the prison governor and his deputy.

8. Gwefan

Meini prawf llwyddiant:

Cysondeb yn y ffordd y mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio.

Technoleg Gwybodaeth y Weinyddiaeth Cyfiawnder: Gwasanaethau Digidol a Thechnoleg

Wrth ddylunio gwefannau newydd neu ailddatblygu ein gwefannau presennol, bydd pencadlys corfforaethol y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn ystyried arweiniad Comisiynydd y Gymraeg ar Dechnoleg Iaith Gymraeg, y nodyn cyngor ar Egwyddorion Meddalwedd Dwyieithog ac unrhyw arweiniad arall a gyhoeddir gan y Comisiynydd ynghylch datblygu gwefannau. Er bod y Weinyddiaeth Cyfiawnder, ynghyd ag adrannau eraill y llywodraeth, yn cyfyngu ar nifer y gwefannau newydd mae'n eu datblygu ar hyn o bryd, dyma rai enghreifftiau lle'r ydym wedi darparu cyfieithiad Cymraeg:

Yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol – Contract Gwasanaeth Gweithredwr y Cyngor Cyfreithiol Sifil. Pan fydd cynnwys Saesneg yn cael ei greu ar wasanaeth y Cyngor Cyfreithiol Sifil, rhoddir gwybod i Swyddfa Cymru. Bydd y tîm wedyn yn mynd ati i gyfieithu cynnwys Saesneg i'r Gymraeg ac yn ei ddychwelyd erbyn dyddiad cau y cytunwyd arno ymlaen llaw. Yna bydd diweddariadau Cymraeg a Saesneg yn cael eu cyhoeddi ochr yn ochr pan fydd y safle'n cael ei ddiweddarau.

Mae'r ateb ar gyfer prosiect Llwyfan Cyffredin GLITEM yn cynnwys darpariaeth ar gyfer yr iaith Gymraeg.

8. Website

Success criteria:

Consistency in the way the Welsh language is used.

MoJ IT: Digital and Technology

When designing new websites, or redeveloping our existing websites, MoJ corporate HQ will take into account the WLC's guidance on Welsh Language Technology, the advice note on the Principles of Bilingual Software and any other guidance issued by the WLC with regard to developing websites. Although MoJ, along with other government departments, is currently limiting the number of new websites it is developing, some examples of where we have accommodated Welsh translation include:

Legal Aid Agency – Civil Legal Advice Operator Service Contract. When English content is created on the Civil Legal Advice service, the Welsh Office is notified. The team then works to translate English content into Welsh and return within a pre-agreed deadline. Welsh and English updates are then published side by side when the site is updated.

The solution for HMCTS' Common Platform project includes provision for the Welsh language.

Dyma safbwynt Gwasanaethau Digidol a Thechnoleg y Weinyddiaeth Cyfiawnder ar ddatblygu technoleg iaith Gymraeg:

- pan fydd yn datblygu ac yn cyflwyno cynnyrch a systemau TG newydd neu'n diweddarau hen rai, bydd yn asesu'r gofynion ieithyddol ar gyfer gwasanaethau a ddarperir yng Nghymru
- bydd yn hyrwyddo ac yn hwyluso defnyddio'r Gymraeg pryd bynnag y bydd modd
- bydd yn rhoi'r egwyddor o gydraddoldeb ar waith bob cyfle posib
- pan fydd yn datblygu neu'n caffael systemau Gwasanaethau Digidol a Thechnoleg y Weinyddiaeth Cyfiawnder, bydd yn ystyried Canllawiau a Safonau'r Comisiynydd ar Feddalwedd Dwyieithog

Mae'r egwyddorion hyn yn berthnasol pryd bynnag y bydd yn symud at gontractau newydd.

Mae'r berthynas rhwng Gwasanaethau Digidol a Gwasanaethau Technoleg y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn hanfodol er mwyn cynhyrchu gwell Technoleg Gwybodaeth. Bydd y ddau wasanaeth yn parhau i weithio gyda Gwasanaeth Digidol y Llywodraeth i ddiffinio rôl a chyfrifoldebau ein swyddogaethau a'n rhyngwyneb. Mae Gwasanaethau Digidol a Thechnoleg y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn gweithio gyda Chydlynnydd Cynllun Iaith Gymraeg y Weinyddiaeth Cyfiawnder ac Uned Iaith Gymraeg GLITEM i helpu i sicrhau cysondeb yng ngallu corfforaethol y Weinyddiaeth i gyfieithu cynnwys Cymraeg ar gyfer gwasanaethau digidol.

Mae Gwasanaeth Digidol a Thechnoleg y Weinyddiaeth bob amser yn barod i ystyried unrhyw ofynion penodol sydd gan yr Uned Iaith Gymraeg.

MoJ Digital and Technology's position on the development of Welsh language technology is:

- as it develops and delivers new IT systems and products or update old ones, it will assess the linguistic requirements in respect of services provided in Wales
- it will promote and facilitate the use of Welsh wherever possible
- it will implement the principle of equality at every opportunity
- when it develops or procures MoJ Digital and Technology systems it will take into account the Commissioner's Bilingual Software Guidelines and Standards

These principles are applied whenever it transitions to new contracts.

The relationship between MoJ Technology and MoJ Digital Services is vital to producing better Information Technology. MoJ Technology and MoJ Digital will continue to work with the Government Digital Service to define the roles and responsibilities of our functions, and our interface. MoJ Digital and Technology engages with MoJ's Welsh Language Scheme Co-ordinator and the HMCTS Welsh Language Unit to help ensure consistency in MoJ's corporate capability of translating Welsh content for digital services.

MoJ Digital and Technology is always willing to consider any specific requirements of the Welsh Language Unit.

9. Gwasanaethau a ddarperir ar ran y Weinyddiaeth Cyfiawnder gan bartion eraill

Meini prawf llwyddiant:

Sicrhau dull gweithredu cyson ar gyfer yr ymrwymadau yn y Cynllun Iaith Gymraeg.

Gofynnwyd i **Gwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru** ddarparu gwasanaethau 'Drwy'r Gât'² yn CEM Berwyn sydd newydd agor yng Ngogledd Cymru, fel y Prif Ddarparwr. Mae'r gwasanaethau wedi cael eu comisiynu drwy newid i gontract CPA 11 presennol y Cwmni Adsefydlu Cymunedol. Cawsant eu rhoi ar waith ym mis Ionawr 2017 a byddant yn cael eu cynnal nes daw contract y Cwmni i ben ar 31 Ionawr 2022. Mae'r gwasanaethau hynny'n ddarostyngedig i gymalau contract cyffredinol y Cwmni, sy'n mynnu bod unrhyw wasanaethau a deunyddiau yn cael eu darparu drwy gyfrwng y Gymraeg pan fydd hynny'n ofynnol neu pan wneir cais amdanynt.

Mae'r **contractau Cystadlu i Ddarparu Gwasanaethau** yn ymwneud â darparu gwasanaethau rheoli cyfleusterau i Garchardai'r Sector Cyhoeddus, Sefydliadau Troseddwy'r Ifanc a Chanolfannau Symud Ymlaen ar gyfer Mewnfudwyr, yn unol â Rhaglen Cost Uned y Carchar. Mae'r gwasanaethau hyn yn cael eu darparu ledled Cymru a Lloegr. Carcharorion, staff y carchardai a'r rheini sy'n ymweld â'r llefydd hyn yw'r rhanddeiliaid sy'n derbyn y gwasanaethau. Mae'r contractau Cystadlu i Ddarparu Gwasanaethau wedi'u rhannu'n bedair lot. Lot F yw'r un sy'n berthnasol i Ddwyrain Canolbarth Lloegr, Gorllewin Canolbarth Lloegr a Chymru. Cychwynnodd y contractau ar 1 Mehefin 2015 am gyfnod cychwynnol o bum mlynedd, gyda'r posibilrwydd o'u hymestyn am ddwy flynedd arall.

² 'Drwy'r Gât' yw'r gwasanaeth a gynigir gan Gwmnïau Adsefydlu Cymunedol mewn Carchardai Ailsefydlu i helpu troseddwy'r sy'n cael eu rhyddhau ac yn mynd yn ôl i'r gymuned. Yn ystod y 12 wythnos cyn rhyddhau, canolbwyntir ar bethau fel cymorth i ddod o hyd i lety a chymorth ym maes hyfforddiant ac addysg, arian a dyledion. Darperir gwasanaethau yn Gymraeg i'r troseddwy'r sy'n gofyn am hynny.

9. Services delivered on behalf of the MoJ by other parties

Success criteria:

Ensure a consistent approach to the commitments made in the WLS.

The **Wales Community Rehabilitation Company (CRC)** has been asked to deliver 'Through the Gate' services² at the newly opened HMP Berwyn in North Wales as the Lead Host. The services have been commissioned through a contract change to the existing CPA 11 CRC contract, were mobilised in January 2017 and will run to completion of the CRC contract, ending on 31 January 2022. Those services are subject to the overall CRC contract clauses requiring any services and materials to be delivered through the medium of Welsh where required or requested.

The **Competing the Delivery of Services (CDS) contracts** cover the delivery of facility management services to Public Sector Prisons, Young Offenders Institutions and Immigration Removal Centres in line with the Prison Unit Cost Programme. These services are delivered across England and Wales. The stakeholders receiving these services are prisoners, prison staff and visitors to the properties. The CDS contracts are split into four lots. Lot F covers East Midlands, West Midlands and Wales. The contracts commenced on 1 June 2015 for an initial period of five years with the possibility to extend for a further two years.

² 'Through the Gate' is the service that CRCs offer in Resettlement Prisons to support the resettlement of offenders being released from custody into the community. The focus during the 12-week period running up to release includes support to find accommodation, training and education, and on finance and debt. Services are provided in Welsh to offenders who request it.

Mae'r contractau'n sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu cyflwyno yn unol â'r Cynllun Iaith Gymraeg, gyda chymalau cytundebol penodol yn ymwneud â'r canlynol:

- Gohebiaeth a chyfathrebu'n ysgrifenedig
- Cyfathrebu dros y ffôn
- Cyfathrebu wyneb yn wyneb
- Cyfarfodydd Cyhoeddus
- Cyhoeddiadau a ffurflenni
- Darparu gwasanaeth – bydd y contractwr yn caniatáu i'r Gymraeg fod yn ddewis iaith wrth ddarparu'r gwasanaeth yn yr eiddo dan sylw mewn ardaloedd lle mae nifer y siaradwyr Cymraeg yn 50% neu'n uwch

Mae'r contract yn cynnig llawer o hyblygrwydd os yw'r contractwr yn dymuno is-gontractio'r gwaith o ddarparu'r gwasanaeth.

Fel rhan o'r contract rhwng **CEM Berwyn** a Novus Cambria i ddarparu sgiliau ac addysg ar gyfer CEM Berwyn, mae cymal wedi cael ei gynnwys yn nhelerau ac amodau'r contract ar gyfer gofynion iaith Gymraeg, sef:

B11 Gofynion o ran y Gymraeg

B11.1 Rhaid i'r Contractwr bob amser gydymffurfio â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 a Chynllun Iaith Gymraeg yr Awdurdod (fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd) yn union fel petai ef ei hun yw'r Awdurdod, i'r graddau fod yr un pethau'n berthnasol wrth ddarparu'r Gwasanaethau

B11.2 Rhaid i'r Contractwr fod yn gyfrifol am hyrwyddo'r gwaith o ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg neu yn Saesneg i'r Dysgwyr, a bydd yn defnyddio camau rhesymol i sicrhau hyn.

The contracts ensure that services are delivered in accordance with the WLS with specific contractual clauses covering:

- Correspondence and written communication
- Telephone communication
- Face-to-face communication
- Public meetings
- Publications and forms
- Service delivery – the contractor shall allow for Welsh as the preferred language for the provision of the service delivery at affected property located in areas where there are 50% and above Welsh language speakers

The contract provides a high level of flexibility where the contractor wishes to sub-contract its service delivery.

Within the **HMP Berwyn** contract that MoJ has with Novus Cambria for the provision of learning and skills for HMP Berwyn, a clause has been included within the contract terms and conditions for Welsh language requirements, namely:

B11 Welsh language requirements

B11.1 The Contractor shall, at all times, comply with the Welsh Language Act 1993 and the Authority's Welsh Language Scheme (as amended from time to time) as if it were the Authority to the extent that the same relate to the provision of the Services

B11.2 The Contractor shall be responsible for promoting the delivery of the services in Welsh or English to the Learners and shall use reasonable steps to achieve this.

Mae'r gofynion gweithredol canlynol wedi'u cynnwys yn y fanyleb hefyd:

Bydd y contractwr yn cynnig y ddarpariaeth ganlynol o leiaf mewn perthynas â'r Gymraeg:

- (a) hyfforddiant, cymorth a chyfleoedd asesu i ddysgwyr sy'n dymuno dilyn cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg, a hynny gan staff cymwys sy'n gallu siarad Cymraeg
- (b) sgiliau hanfodol i'r dysgwyr hynny sy'n dychwelyd i gymuned Gymraeg ac y mae eu sgiliau Cymraeg iaith gyntaf yn is na lefel 2
- (c) yr arwyddion i gyd yn Gymraeg ac yn Saesneg
- (d) enghreifftiau Cymraeg mewn deunyddiau addysgu, e.e. cyfeiriadau at amserlenni bws neu drên o Gymru
- (e) cyfleoedd i wella sgiliau siarad Cymraeg, darllen Cymraeg ac ysgrifennu yn Gymraeg

Ar gyfer y contractau gwasanaethau iaith newydd a ddechreuodd ar 31 Hydref 2016 ac a fydd yn dod i ben ar 30 Hydref 2020, ceir gofyniad contractiol i'r gwasanaeth archebu fod ar gael yn Gymraeg i gael mynediad at y gwasanaeth. Mae'r broses archebu yn caniatáu ar gyfer darparu cyfieithydd Cymraeg i'w ddefnyddio yn y sector cyfiawnder.

10. Dyrannu grantiau

Meini prawf llwyddiant:

Caiff grantiau eu dyrannu yn unol â'r ymrwymadau a wnaed yn y Cynllun

i) Manylion y grant

O'r grantiau (ni roddir benthyciadau) a ddyfarnwyd gan y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyd (Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi erbyn hyn) yn ystod 2016–17, ni roddwyd dim un yn benodol ar gyfer gweithgareddau yng Nghymru.

Also within the specification are the following operational requirements:

The contractor shall provide the following Welsh language provision as a minimum:

- (a) provide training, support and assessment to learners wishing to undertake qualifications through the medium of Welsh by appropriately qualified Welsh-speaking staff
- (b) essential skills are provided for those learners returning to a Welsh-speaking community whose first language Welsh skills are below level 2
- (c) all signage in both Welsh and English
- (d) Welsh examples are used in teaching materials, e.g. references to bus or train timetables from Wales
- (e) and opportunities to improve Welsh speaking, reading and writing skills

For the new language services contracts, which commenced 31 October 2016 and expire 30 October 2020, there is a contractual requirement that the booking service is available in Welsh to access the service. The booking allows the provision of a Welsh interpreter for use in the justice sector.

10. Allocation of grants

Success criteria:

Grants are awarded in accordance with the commitments made in the Scheme

i) Details of grant

Of the grants (it does not provide loans) awarded by NOMS (now HMPPS) during 2016–17, none was specifically for activities in Wales.

ii) Y fframwaith grantiau ar gyfer 2017 ac ar ôl hynny

Ar gyfer 2017–18, bydd cyllideb grant Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi (£3.5miliwn) yn cael ei defnyddio i gefnogi parhad grantiau strategol, gyda'r balans (£1.6miliwn yn fras) yn targedu prosiectau arloesol newydd ar draws ystâd y Gwasanaeth. Mae fersiynau terfynol y cynigion yn dal i gael eu paratoi ar gyfer y prosiectau hyn sy'n cael eu hariannu gan grant.

Bydd y cyfleoedd grant yn cael eu hysbysebu i bob corff yn y Sector Gwirfoddol, Cymunedol a Mentrau Cymdeithasol – sef cyrff yn y Trydydd Sector – yng Nghymru a Lloegr.

Bydd yr arweiniad a'r amserlen arfaethedig yn ystyried gofynion y Cynllun Iaith Gymraeg.

iii) Y wybodaeth ddiweddaraf am ddyraniadau a gweithgareddau y soniwyd amdanynt yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol y flwyddyn ddiwethaf

Oherwydd lleoliad y safleoedd cyntaf i'w cynnwys yn y rhaglen Diwygio Carchardai yn 2016–17, ni chynhwyswyd gweithgareddau a oedd wedi'u lleoli'n benodol yng Nghymru.

ii) The grant framework for 2017 onwards

For 2017–18 the HMPPS grants budget (£3.5m) will be used to support the continuation of strategic grants, with the balance (roughly £1.6m) being targeted at new innovative projects across the HMPPS estate. Proposals are still being finalised for these grant-funded projects.

The grant opportunities will be advertised to all Voluntary, Community and Social Enterprise (VCSE) organisations – which are Third Sector organisations – in England and Wales.

Both the guidance and the proposed timetable will take into account the requirements of the Welsh Language Scheme.

iii) Update of the allocations and activities mentioned in the last year's Annual Monitoring Report:

Due to the location of the sites included in the Prison Reform Early Adopter programme in 2016–17, it did not include activities specifically based in Wales.

11. Monitro'r Cynllun Iaith Gymraeg

Meini prawf llwyddiant:

Gwneud yn siŵr bod y Cynllun yn addas ar gyfer ei bwrpas.

Roedd Cydlynnydd Cynllun Iaith Gymraeg y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn dal yn gyfrifol am ddatblygu a gweithredu'r Cynllun. Un elfen hollbwysig o'r rôl yw sicrhau bod y Cynllun yn cael ei roi ar waith ar draws amrywiol feysydd busnes corfforaethol y Weinyddiaeth, ac mae hynny'n cynnwys rhoi gwybodaeth ac arweiniad ac ymateb i geisiadau am wybodaeth. Ni chafodd Cydlynnydd y Cynllun unrhyw gwynion ffurfiol ynghylch y modd y gweithredwyd Cynllun Iaith Gymraeg y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn 2016–17. Mae diwygiadau i'r Cynllun yn cael eu hystyried ar hyn o bryd, ac mae'n debygol y bydd Cynllun mwy diweddar yn cael ei roi ar waith yn ystod tymor yr hydref 2017.

11. Monitoring the Welsh Language Scheme

Success criteria:

Ensure that the Scheme is fit for purpose.

The MoJ's Welsh Language Scheme Co-ordinator continued to have responsibility for the development and operation of the MoJ Scheme. A key aspect of the role is to ensure that our MoJ Scheme is applied appropriately by the various MoJ corporate business areas, including the provision of advice and guidance and responding to requests for information. The MoJ Scheme Co-ordinator did not receive any formal complaints regarding the operation of the MoJ Scheme in 2016–17. Revisions to the MoJ Scheme are in the process of being considered, with an updated MoJ Scheme likely to come into operation in autumn 2017.



© **Hawlfraint y Goron 2017**

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle y nodir fel arall. I weld y drwydded hon ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3 neu ysgrifennwch at y Tîm Polisi Gwybodaeth, Yr Archifau Gwladol, Kew, Llundain TW9 4DU, neu anfonwch e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Os ydym wedi nodi unrhyw ddeunydd fel deunydd hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

© **Crown copyright 2017**

This publication is licensed under the terms of the Open Government Licence v3.0 except where otherwise stated. To view this licence, visit nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3 or write to the Information Policy Team, The National Archives, Kew, London TW9 4DU, or email: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Where we have identified any third party copyright information you will need to obtain permission from the copyright holders concerned.

Mae'r adroddiad hwn ar gael mewn fformatau eraill ar gais gan y Gwasanaethau Dadansoddi drwy gysylltu â MOJWLSrevision@justice.gsi.gov.uk

Alternative format versions of this report are available on request from Analytical Services by contacting MOJWLSrevision@justice.gsi.gov.uk